# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 21.11.11

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Evie Morgan-Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Louise Hughes, Elin Walker Jones, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, W. Tudor Owen, Peter Read, Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams a Stephen Churchman (Uwch Arweinydd Portffolio)

**Hefyd yn Bresennol:** John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb), Gwenan M. Williams (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Gareth Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Medi 2011 fel rhai cywir.

## 3. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 23 Awst 2011.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 4. DIDDYMU PARTHAU HACNI O FEWN GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar y bwriad o ddiddymu parthau hacni o fewn Gwynedd.

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd yr ystyriwyd y mater yn y pwyllgor diwethaf pryd y penderfynwyd hysbysu'r diwydiant y diddymir y dair parth hacni ac y bydd Gwynedd yn gweithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012 ymlaen. Nid yw'r penderfyniad hwn wedi ei groesawu gan rhai aelodau o'r diwydiant.

Nododd, os y gweithredir penderfyniad y pwyllgor i weithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012 yna byddai'n ofynnol derbyn cymeradwyaeth y pwyllgor i newid amodau'r drwydded a thelerau trwydded cerbydau hacni.

Byddai'n rhaid dileu –

a) Yr amod cyffredinol (d) o Amodau'r Drwydded sef *"Cedwir parthau Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fel y maent"*
b) Y cymal ar y Drwydded Cerbyd Hacni sy'n gosod cyfyngiad ar weithio tu allan i'r parth ardal sef *"i fod ar gael i'w hurio o fewn ardal xxxx o'r Cyngor"* lle mae Arfon, Dwyfor neu Meirionnydd yn cael ei fewnosod yn le xxxx.

Effaith hyn fyddai i ganiatau cerbydau hacni trwyddedig weithredu ar draws Gwynedd gyfan. Byddai'r newid hwn yn datrys y sefyllfa anghyson sy'n codi lle y gallai gyrrwr hacni trwyddedig weithredu ym mhob ardal ond rhaid defnyddio cerbydau a drwyddedwyd yn yr ardal berthnasol. Yn ogystal, byddai o gymorth i leddfu'r prinder cerbydau hacni a allai godi mewn un ardal ar adegau pryd y cynhelir digwyddiad mawr oherwydd y byddai cerbydau hacni o rhywle yng Ngwynedd ar gael i'w hurio yn y digwyddiad.

Nododd ymhellach, os y penderfynir mynd rhagddo i ddiddymu'r cyfyngiad presennol o ran cerbydau sy'n gweithredu ar draws Gwynedd ar 1 Ionawr 2012, bydd angen ystyried y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng amodau trwyddedau cerbydau hacni'r dair ardal. Mae'r dair ardal yn rhannu'r un amodau, oddigerth yr amodau arbennig ychwanegol sy'n berthnasol i Ardal Arfon sef –

a) Bod y nifer o drwyddedau'n cael eu cyfyngu i 98 ac eithrio trwyddedau ar gyfer cerbydau sy'n llai na tair oed ac sy'n addas i'r anabl drwy ganiatau llwytho cadair olwyn o ochr y cerbyd.

b) Mewn achos lle bydd unrhyw un o'r 98 trwydded presennol gael ei hildio neu ei ddiddymu, bydd y drwydded ond yn cael ei ail-ganiatau i gerbyd sy'n llai na tair oed ac sy'n addas i'r anabl drwy ganiatau llwytho cadair olwyn o ochr y cerbyd.

Yn Arfon, gallai'r 98 trwydded presennol gael eu trosglwyddo gan y trwyddedai presennol i gerbyd newydd sydd ddim wedi ei addasu ar gyfer mynediad i'r anabl. Gallai trwydded cerbyd presennol a eithriwyd rhag gofynion mynediad i'r anabl h.y. un o'r 98 presennol, hefyd gael ei drosglwyddo gan y trwyddedai i berson arall sy'n "etifeddu hawliau taid" y drwydded honno ac felly ddim angen darparu cerbyd gyda mynediad i'r anabl.

Rhoddodd fanylion am y dewisiadau o ran gweithredu a oedd yn agored i'r pwyllgor benderfynu arnynt sef –

a) Dileu'r amodau trwydded arbennig sydd ar hyn o bryd yn berthnasol yn Arfon. O ystyried telerau Deddf Cydraddoldeb 2010, gallai penderfyniad y pwyllgor gael ei herio os y penderfynir tynnu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethu ar gyfer pobl anabl. 'Roedd o'r farn na ddylid mynd rhagddo i ddileu'r ddarpariaeth hon.
b) Ymestyn yr amod trwydded arbennig presennol sy'n cyfyngu ar roddi trwyddedau ychwanegol ac ail-ganiatau unrhyw un o'r trwyddedau presennol sydd wedi eu hildio neu ddirymu i gerbydau sy'n addas i'r anabl yn Ardal Arfon yn unig, ar hyn o bryd, i weddill Gwynedd. Byddai hyn yn ymestyn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethu ar gyfer pobl anabl ar draws pob rhan o'r Sir. Serch hynny, byddai'n gosod y gost ychwanegol o ddarparu cerbyd a addaswyd ar gyfer mynediad i'r anabl

ar bersonau sy'n dymuno ymuno â'r diwydiant oni bai eu bod yn gallu prynu cerbyd trwyddedig gan ddeiliad trwydded presennol ac yn cael y drwydded wedi ei throsglwyddo iddynt.

c) Cadw'r gwahaniaethau ardal sydd ar hyn o bryd yn amodau'r drwydded. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar y diwydiant nac yn cael gwared ar y darpariaethau mewn perthynas â cherbydau mynediad i'r anabl ond na fyddai, er cadw o fewn ysbryd y penderfyniad, i ddiddymu'r parthau. 'Roedd o'r farn na ddylid mynd rhagddo i ddileu'r ddarpariaeth hon.

Argymhellodd y dylid gohirio diddymu'r parthau er mwyn ymgynghori â'r diwydiant a chyflwyno adroddiad pellach ar ganlyniad yr ymgynghoriad.

Nododd yr Uwch Arweinydd Portffolio bod y penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod diwethaf yn gynamserol ac y dylid ymgynghori â'r diwydiant a rhai o'r defnyddwyr, yn enwedig yr anabl, ac hefyd cael barn gyfreithiol ar y mater. Yn wyneb hynny, 'roedd o'r farn y dylid gohirio'r mater.

'Roedd aelod arall hefyd yn anfodlon gyda phenderfyniad y pwyllgor diwethaf i ddiddymu'r tri parth hacni ac i weithredu fel un parth o 1 Ionawr 2012 ymlaen. Nododd ei bod yn bwysig i ymgynghori â'r diwydiant a chyrff eraill megis yr heddlu, grwpiau anabl a.y. cyn cymryd unrhyw gamau gweithredol. Nododd hefyd nad oes cyfeiriad yn yr adroddiad at y gwahaniaethau yn y tri parth. Cyfeiriodd hefyd at yr adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor diwethaf a oedd yn nodi nad yw'r trefniant presennol yn gynaliadwy a'i bod yn amser i wneud i ffwrdd â'r tri parth fel bod pawb o fewn Gwynedd yn gweithio dan yr un amodau. Nododd hefyd bod Adran Diwydiant y Llywodraeth yn argymell ymarfer da gan gynghorau ac y dylid diddymu parthau a chyfyngu ar y niferoedd. Nododd hefyd mai un o'r rhesymau tros gael trwyddedau cerbydau hacni yw sicrhau diogelwch y cyhoedd. 'Roedd o'r farn bod y drefn bresennol yn gweithio'n iawn ac nad oes symudiad ar hyn o bryd o du'r Llywodraeth i ddeddfu ar y mater hwn,

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu bod Comisiwn y Gyfraith yn edrych ar newidiadau i ddeddfwriaeth cerbydau hacni ar hyn o bryd.

Nododd aelod arall ei fod yn fodlon gyda'r drefn bresennol ac y dylid glynu at y drefn honno.

**PENDERFYNWYD glynu at y drefn bresennol o weithredu'r tri parth hyd nes y byddai gofyn cyfreithiol/deddfwriaethol i wneud newidiadau a cheisio barn gyfreithiol ar y drefn bresennol.**

## 5. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DDEDDF TRWYDDEDU 2003 – DADREOLEIDDIO ADLONIANT RHEOLEDIG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Hysbysodd y Rheolwr Trwyddedu y codwyd y mater gan aelod yn y cyfarfod diwethaf parthed bwriad Llywodraeth San Steffan i wneud newidiadau sylweddol i'r ddeddf gyda'r canlyniad os y buasent yn dod yn

ddeddfwriaeth yna ni fyddai gan y Cyngor reolaeth ar lawer o'r materion lle mae rheolaeth yn bodoli ar hyn o bryd, neu o leiaf byddai'r rheolaeth mewn ffurf gwahanol. Nododd mai Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth San Steffan (DCMS) sy'n ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig ac mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 3 Rhagfyr 2011.

Cyfeiriodd at y materion canlynol –
a) Y dylid dileu gofynion trwyddedu ar gyfer y mwyafrif o'r gweithgareddau a ddiffinnir ar hyn o bryd fel adloniant wedi ei reoleiddio yn atodlen 1 o Deddf Trwyddedu 2003.
b) Y cyflwynir yr ymgynghoriad ar y sail bod y drefn bresennol yn creu anawsterau a rhwystr i fudiadau sy'n ceisio trefnu gweithgareddau a digwyddiadau lle mae'r risg yn gymharol isel mewn eiddo fel neuaddau pentref ac ysgolion. Yn ôl y ddogfen ymgynghorol, pe byddai'r cyfyngiadau'n cael eu tynnu ymaith, byddai tŵf sylweddol yn y gweithgareddau a gynhelir gyda'r canlyniad y byddai gwellhad yn ansawdd bywyd a hefyd cynnydd mewn rhyngweithiad cymdethasol.
c) Y ddadl a wneir yn yr ymgynghoriad yw bod deddfwriaeth yn bodoli eisoes i reoli problemau'n deillio o adloniant cyhoeddus megis niwsans sŵn, yn ogystal â phwerau perthnasol sydd gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân.
ch) Y sefyllfaoedd y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad sy'n ymddangos yn afresymol ac yn cefnogi'r ddadl o gael gwared â'r gofyn am drwydded. Nododd enghreifftiau o weithgareddau sydd angen trwydded ar hyn o bryd sef band pres yn y parc lleol; pianydd mewn lle bwyta; cyngerdd mewn ysbyty; dramau ysgol ac arddangosfa o ffilm mewn neuadd bentref.
d) Yr anghysondeb o ran y diffyg angen am drwydded ar gyfer gêm pêl-droed gyda 50,000 yn bresennol a darllediad teledu byw mewn neuadd bentref.
dd) Y cynnig i waredu gofynion trwyddedu ar gyfer cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, dramau, perfformiadau dawns ac arddangos ffilmiau ar gyfer gweithgareddau lle y disgwylir dim mwy na 5,000 o bobl. Fodd bynnag, bydd gofynion trwyddedu'n parhau ar gyfer gweithgareddau lle y disgwylir 5,000 o bobl neu fwy, gornest bocsio neu ymaflyd codwm, gweithgaredd dawns a ddynodir fel adloniant rhywiol ynghyd â chadw'r gofynion ar gyfer alcohol a bwyd poeth.
e) Bod y gweithgareddau hynny a ddadreoleiddir yn cael eu tynnu'n awtomatig oddi ar drwyddedau cyfredol ac y bydd modd i ddaliwr trwydded gyflwyno cais i ddileu unrhyw amod ychwanegol ar y drwydded sy'n berthnasol i adloniant. Gallai hyn olygu er enghraifft amodau sy'n gwahardd cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio rhag cael ei chwarae mewn gardd gwrw.

Tynnodd sylw'r pwyllgor at y ffaith nad oes angen trwydded os cynhelir y gweithgaredd mewn capel neu eglwys, boed yn wasanaeth crefyddol ei natur ai peidio.

Nododd y golygai'r newidiadau arfaethedig na fydd angen i ysgolion, neuaddau cymunedol a.y. gael trwydded mewn perthynas ag adloniant, ond yr hyn sy'n achosi pryder yw y bydd clybiau nos, tafarndai a digwyddiadau achlysurol hefyd yn gallu darparu adloniant heb drwydded.

Manylodd ar sylwadau'r Unedau Trwyddedu ac Iechyd Amgylchedd i'r ymgynghoriad.

Cyfeiriodd at awgrym yn yr ymgynghoriad sef y byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at leihau costau prosesu ac ymateb i geisiadau am drwydded. Er hyn, rhagwelir bod gwir botensial i'r nifer o gwynion niwsans

sŵn a dderbynnir, gynyddu'n sylweddol yn ogystal â'r costau yn sgîl mynd i gyfraith yn amlach i sicrhau datrysiad i gŵyn.

**PENDERFYNWYD bod y swyddogion perthnasol i geisio sylwadau holl aelodau'r Cyngor ar yr ymgynghoriad ac yna i baratoi ymateb ffurfiol iddo mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Arweinydd Portffolio cyn cyflwyno'r sylwadau terfynol i Lywodraeth San Steffan.**

Ar derfyn y cyfarfod cyfeiriodd aelod at drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ar "Ffioedd Cynnal Ffeiriau Pleser" pryd y cytunwyd i gyflwyno adroddiad ar y mater i bwyllgor. Addawodd y swyddog y byddai'n cyflwyno adroddiad ar y mater i bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 10.40am